

Cyfeiriadau at *Arfer meddygol da* a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2013

# Atebolrwydd mewn timau iechyd meddwl amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol

Gwnaeth y Pwyllgor Safonau a Moeseg, gan weithio gyda'r Adran Iechyd a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion, baratoi'r cyngor isod er mwyn esbonio sut y mae *Arfer meddygol da* a'n harweiniad esboniadol ynghylch *Dirprwyo a chyfeirio* yn berthnasol i seiciatryddion ymgynghorol y maent yn gweithio mewn timau amlasiantaethol.

## Atebolrwydd mewn timau iechyd meddwl amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol

Mae rolau a chyfrifoldebau meddygon ymgynghorol yn datblygu ac yn newid. Maent yn amrywio yn ôl y maes arbenigol dan sylw ac yn ôl y math o amgylchedd gofal iechyd y maent yn cael eu darparu ynddynt. Mae arferion gwaith sy'n newid, megis gwaith tîm amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol, ynghyd â newidiadau i amrediad sgiliau a chymwyseddau ymarferwyr gofal iechyd eraill, yn cyflwyno nifer o gyfleoedd, yn ogystal â sialensiau, wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Y ffordd orau o ddatrys nifer o'r materion yw trwy gael eglurder rhwng meddygon ymgynghorol a'r sefydliad sy'n eu cyflogi ynghylch rolau a chyfrifoldebau priodol. Dylai meddygon ymgynghorol godi unrhyw faterion lle y gallai amwysedd neu ansicrwydd godi ynghylch cyfrifoldebau, gyda'r cyrff sy'n eu cyflogi. Yn ogystal, mae angen i feddygon ymgynghorol fod yn eglur ynghylch disgwyliadau CMC.

Mae pob meddyg yn atebol i CMC dros eu hymddygiad a dros y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Mae *Arfer meddygol da* (2013) yn nodi'r egwyddorion y dylent fod yn sail i'w gwaith proffesiynol, ac y gallai eu hymddygiad gael ei farnu yn eu herbyn. Nid yw *Arfer meddygol da* yn ceisio rhoi sylw manwl i'r holl amgylchiadau y gallai meddygon fod yn gweithio ynddynt. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut y gallai'r egwyddorion yn *Arfer meddygol da* fod yn berthnasol i feddygon y maent yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol neu amlasiantaethol.

- 1 Dylai meddygon fod yn gymwys ym mhob agwedd ar eu gwaith gan gynnwys: adolygu ac archwilio safonau y gofal y maent yn ei ddarparu; hyfforddi a goruchwyllo cydweithwyr; a rheoli staff a pherfformiad y timau y maent yn gweithio ynddynt, ble a phryd y maent yn meddu ar gyfrifoldeb rheolaeth llinell uniongyrchol.
- 2 Dylai meddygon wneud eu gorau i sicrhau bod y systemau y maent yn gweithio ynddynt yn darparu gofal o safon da i gleifion. Pan na fydd modd i feddygon deimlo'n fodlon, a phan na fydd modd iddynt gymryd camau i ddatrys problemau, dylent dynnu sylw eu Hymddiriedolaeth neu gorff contractio neu gyflogi arall at y mater.

- 3** I'r perwyl hwn, dylai meddygon gadarnhau cwmpas a chyfrifoldebau eu rôl mewn ffordd eglur gyda'u corff contractio neu gyflogi. Mae hyn yn cynnwys egluro: llinellau atebolrwydd dros y gofal a ddarparir ar gyfer cleifion unigol; unrhyw rolau arwain a/neu gyfrifoldebau rheolaeth llinell sydd ganddynt dros gydweithwyr neu staff; a chyfrifoldebau dros ansawdd a safonau y gofal a ddarparir gan y timau y maent yn aelod ohonynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn amgylchiadau pan fo'r cyfrifoldeb dros ddarparu yn cael ei rannu rhwng nifer o ymarferwyr a/neu wahanol asiantaethau.
- 4** Nid yw meddygon yn atebol i CMC dros benderfyniadau a chymau gweithredu clinigwyr eraill.
- 5** Mae hyn yn golygu, os bydd meddyg ymgynghorol yn dirprwyo gweithgarwch asesu, trin a gofal i feddyg mwy iau, nid yw'r meddyg ymgynghorol yn atebol i CMC dros benderfyniadau neu gamau gweithredu y meddyg iau, ond mae'r meddyg ymgynghorol yn gyfrifol am sicrhau bod y meddyg iau wedi cael hyfforddiant priodol, eu bod yn meddu ar brofiad priodol a'u bod yn cael eu goruchwyllo mewn ffordd briodol.
- 6** Mae modd i seiciatryddion ddirprwyo gofal y cleifion hynny y byddant yn cytuno bod yn gyfrifol amdanynt. Ond mae nifer o seiciatryddion yn gweithio mewn systemau nad ydynt yn seiliedig ar gyfeirio cleifion i feddyg ymgynghorol penodol. Yn hytrach, gallai'r timau amlddisgyblaethol y maent yn aelod ohonynt fod yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i nifer sylweddol o gleifion. Caiff cyfeiriadau eu gwneud i dimau o'r fath yn uniongyrchol, a chaiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch neilltuo rhywun i weithiwr proffesiynol penodol yn ôl polisiau'r timau. Yn y timau hyn, caiff y cyfrifoldeb dros ofal y cleifion ei rannu ymhlith aelodau clinigol y tîm. Bydd meddygon ymgynghorol yn cadw gafael ar drosolwg grŵp o gleifion y maent yn cael eu neilltuo i'w gofal ac maent yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth i'r tîm. Nid ydynt yn atebol dros gamau gweithredu clinigwyr eraill yn y tîm. Fodd bynnag, yn unol â pharagraff 2, rhaid iddynt wneud eu gorau i sicrhau bod trefniadau mewn grym i fonitro safonau gofal, ac i nodi problemau presennol neu broblemau posibl. Dylent hysbysu eu cyflogwr o unrhyw bryderon neu broblemau nad ydynt wedi cael eu datrys.